OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1042

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020

## RHAN 3

### Diwygiadau Amrywiol

**Diwygiadau i reoliad 10 (eithriadau i'r gofynion ynysu)**

**4.**—(1) Mae rheoliad 10 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl paragraff (4)(jd) mewnosoder—

"(jh) pan fo P yn athletwr elît sydd wedi teithio i'r Deyrnas Unedig i gael un neu ragor o archwiliadau meddygol, i fynd i'r archwiliad hwnnw, ar yr amod—

(i) bod yr archwiliad meddygol at ddiben busnes sy'n penderfynu pa un ai i gynnig contract i P i gymryd rhan mewn cystadleuaeth elît ar ran y busnes hwnnw,

(ii) bod gan P gadarnhad ysgrifenedig yn ei feddiant oddi wrth y busnes hwnnw o'r trefniadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (i), a

(iii) bod y trefniadau hynny wedi eu gwneud cyn i P gyrraedd y Deyrnas Unedig;

(ji) pan fo P yn berson sy'n teithio gydag athletwr elît at ddiben is-baragraff (jh), i ddarparu cynorthwy a chymorth i'r athletwr elît hwnnw mewn cysylltiad ag archwiliad meddygol o'r fath;

(jj) pan fo P yn athletwr elît sydd wedi contractio â busnes i gymryd rhan mewn cystadleuaeth elît, i gymryd rhan mewn cystadleuaeth o'r fath neu ymgymryd â hyfforddiant neu weithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â'r gystadleuaeth elît honno;";

(3) Ym mharagraff (8), yn y man priodol mewnosoder—

"mae i "athletwr elît" ("*elite athlete*") yr un ystyr ag ym mharagraff 38(2)(a) o Atodlen 2";

"mae i "cystadleuaeth elît" ("*elite competition*") yr un ystyr ag ym mharagraff 38(2)(b) o Atodlen 2".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 4 mewn grym ar 26.9.2020 am 4.00 a.m., gweler **rhl. 1(2)**

**Diwygio Atodlen 2 (personau esempt)**

**5.**—(1) Yn Atodlen 2 (personau esempt) i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, mae paragraff 38 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-baragraff (1)(b), yn lle "darparu cymorth i athletwr elît mewn cystadleuaeth elît dramor neu a fu fel arall yn ei hyfforddi" rhodder "hyfforddi athletwr elît mewn cystadleuaeth elît dramor neu a fu fel arall yn darparu cymorth iddo".

(3) Ar ôl is-baragraff (1)(c) mewnosoder—

“(d) sy’n athletwr elît a fu’n mynychu rhaglen hyfforddi dramor at ddiben hyfforddi neu baratoi i gymryd rhan mewn cystadleuaeth elît,

(e) a fu’n darparu hyfforddiant neu gymorth arall i athletwr elît ar raglen hyfforddi dramor at ddiben hyfforddi neu baratoi’r athletwr elît hwnnw i gymryd rhan mewn cystadleuaeth elît,”.

(4) Yn y geiriau ar ôl is-baragraff (1)(e), ar ôl “gystadleuaeth elît dramor” mewnosoder “neu’r rhaglen hyfforddi dramor”.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 5 mewn grym ar 26.9.2020 am 4.00 a.m., gweler **rhl. 1(2)**

**Ychwanegiadau at y rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon penodedig yn Atodlen 4 (digwyddiadau chwaraeon penodedig)**

**6.**—(1) Mae Atodlen 4 (digwyddiadau chwaraeon penodedig) i’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 3, ar y diwedd mewnosoder—

“(i) Y Gorfforaeth Ddartiau Broffesiynol - Camp Lawn Ddartiau Boylesports;

(j) Y Gorfforaeth Ddartiau Broffesiynol - Rowndiau Terfynol Pencampwriaeth Chwaraewyr Ladbrokes;

(k) Y Gorfforaeth Ddartiau Broffesiynol - Pencampwriaeth Ddartiau y Byd William Hill;

(l) Y Gorfforaeth Ddartiau Broffesiynol - Grand Prix y Byd Boylesports.”

(3) Ym mharagraff 5, ar y diwedd mewnosoder—

“(o) Taith Ewrop - Pencampwriaeth yr Alban.”

(4) Ym mharagraff 7, ar y diwedd mewnosoder—

“(c) Motorsport UK - Pencampwriaethau Ceir Gwyllt Prydain;

(d) Motorsport UK - Pencampwriaethau Rali Groes Prydain;

(e) Pencampwriaethau Ceir Teithio Prydain;

(f) Pencampwriaethau Rali Groes Prydain;

(g) Pencampwriaeth GT Prydain a Phencampwriaeth BRDC F3;

(h) Wythnos Gyflymder Goodwood;

(i) Gŵyl Formula Ford Brands Hatch.”

(5) Ym mharagraff 10, ar y diwedd mewnosoder—

“(g) Taith Snwcer y Byd - Rowndiau Rhagbrofol Pencampwriaeth Meistri yr Almaen;

(h) Taith Snwcer y Byd - Pencampwriaeth Agored Gogledd Iwerddon;

(i) Taith Snwcer y Byd - Pencampwriaethau’r DU;

(j) Taith Snwcer y Byd - Pencampwriaeth Agored yr Alban;

(k) Taith Snwcer y Byd - Grand Prix y Byd.”

(6) Ym mharagraff 14, ar y diwedd mewnosoder—

“(h) Pencampwriaeth Bocsio Ryngwladol - Queensberry Promotions.”

(7) Ar y diwedd mewnosoder—

"**20.** Pêl-rwyd - England Roses v Jamaica Sunshine Girls - Cyfres Pêl-rwyd Ryngwladol Vitality."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Rhl. 6 mewn grym ar 26.9.2020 am 4.00 a.m., gweler **rhl. 1(2)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– Regulations revoked by S.I. 2022/315 Sch. para. 13